Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynhadledd SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **19 Rhagfyr 2017** |
| **Amser:** | **14:00 – 16:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Cyllid, SCHTh (JW)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Uwch-arolygydd Gary Mills (GM)<br>Tracey Hawthorne, HDP (TH)<br>Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| CRYNODEB GWEITHREDOL O GYFARFOD 05/12/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam** | **Crynodeb Gweithredol** | **Cynnydd** |
| **PB 3024** | **Llythyr o ddiolch i'w anfon i Arolygydd Heddlu De Cymru a fynychodd y lleoliad yn Llangamarch.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3025** | **Ailymweld â chyflwyniad Price Waterhouse Cooper yn BP Ionawr 2018.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3026** | **PS i roi cynigion ymchwil a gyflwynwyd i SCHTh i'w hystyried ar gyfer ariannu i'r PG.** | **Wedi'i gwblhau** |

| PENDERFYNIADAU YN CODI O GYFARFOD 19/12/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o Benderfyniad** | **I'w ddatblygu gan** |
| **PB T2 52** | **Cymeradwyodd y CHTh y cyllid ar gyfer y cynnig ymchwil ar gam-drin domestig.** | **CHTh** |
| **PB T2 53** | **Cymeradwyodd y CHTh a'r PG y cynllun gweithredu ar gyfer ehangu'r PSA.** | **CHTh/PG** |
| **PB T2 54** | **Gwobrwyo'r tendr amgryptiad i gwmni ComputaCentre Cyf.** | **PSA** |

## 2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr a materion sy'n codi

Cytunodd y Bwrdd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.

Diweddarodd GB y Bwrdd bod penderfyniadau PB T2 50 a PB T2 51 o'r cyfarfod ar 5 Rhagfyr wedi'u rhoi i Adran Gaffael HDP ar gyfer eu gweithredu.

Awgrymodd y PG y dylid ail-ymweld â Cham Gweithredu 3025 ym mis Chwefror 2018 yn lle mis Ionawr. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chost bosibl defnyddio gwasanaethau cwmni Price Waterhouse Cooper.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

<u>Diweddariad Gweithredol</u>

Rhoddodd y PG y diweddaraf i'r Bwrdd ar ystod o faterion gweithredol gan gynnwys swyddogion sydd wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd, unigolyn sydd wedi cyflawni sawl trosedd yn Rhydaman, tarw a oedd wedi dianc yn Hwlffordd a digwyddiad arfau saethu yn y Trallwng, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Dywedodd y PG bod 6 swyddog wedi dioddef ymosodiad yn ystod dyletswydd ers y cyfarfod diwethaf. Cynhaliodd HDP ymgyrch arbennig ar gyfer ildio arfau saethu ar draws yr ardal heddlu, a arweiniodd at 252 arf saethu'n cael ei hildio i'r Heddlu. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyfres anghysylltiedig o drywanu ledled yr ardal heddlu.

<u>Diweddariad sefydliadol</u>

Dywedodd y PG ei fod wedi ymweld â chwrs Cymraeg preswyl yn Aberteifi.

**Cam Gweithredu: Cynnal cyfarfod o'r Bwrdd Plismona drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018.**

Aeth y PG i weld sut mae brysbennu iechyd meddwl yn gweithio yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, a chyfarfu â Phennaeth Bwrdd Iechyd Hywel Dda i symud trafodaethau ynghylch Iechyd Meddwl ymlaen. Dywedodd y PG y byddai diwrnod o weithredu'n cael ei gynnal ar draws yr ardal heddlu ar 22 Rhagfyr, a nododd ei fwriad i ymweld â'r Ystafell Reoli a Gorsaf Heddlu Caerfyrddin ar fore ddydd Nadolig.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

<u>Lleol</u>

Dywedodd y CHTh bod pum ymgeisydd ar gyfer y rôl Prif Swyddog Ariannol wedi cyrraedd y rhestr fer a bod y cyfweliadau wedi'u cynnal. Roedd y swydd wedi'i derbyn gan yr ymgeisydd a ffafrir ac mae gwiriadau diwydrwydd gofynnol yn cael eu cynnal ar hyn o

bryd. Bydd strwythur newydd ar gyfer SCHTh yn destun ymgynghoriad ffurfiol yn dilyn cyflwyniad i staff SCHTh.

<u>Cenedlaethol</u>

Dywedodd y CHTh bod rôl Prif Weithredwr TGCh yr Heddlu wedi'i secondio a bod y rhestr fer ar gyfer Prif Weithredwr Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael ei llunio ar hyn o bryd.

Cydnabu'r PG a'r CHTh bod y ffigurau setliad ariannol ar fin cael eu cyhoeddi, gan arwain at drafodaeth fer mewn perthynas â chyllid HDP a oedd yn canolbwyntio ar ystadau a thechnoleg gwybodaeth.

Dywedodd y PS bod y rôl Cyfarwyddwr Comisiynu yn SCHTh wedi'i hysbysebu fel secondiad yn ystod cyfnod mamolaeth.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â data perfformiad ar gyfer Goleudy, gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu. Soniwyd wrth y PG am faterion pellach â Goleudy.

**Cam Gweithredu: Y PG i adolygu data perfformiad a materion pellach â Goleudy a diweddariad i'w roi yn y cyfarfod nesaf.**

**5. Materion i'w trafod**

**a) Cynnig Ymchwil**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyllid ar gyfer cynnig ymchwil mewn perthynas â cham-drin domestig. Bwriedir cynnal yr ymchwil dros gyfnod o 18 mis. Dywedodd y PG y byddai'r Grŵp Prif Swyddogion yn cefnogi'r ymchwil ac yn ymroi iddo'n llwyr.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh y cyllid ar gyfer y cynnig ymchwil ar gam-drin domestig.**

**b) Cynllun Gweithredu ar gyfer Ehangu'r PSA**

Cyflwynodd swyddog cydymffurfio SCHTh gynllun gweithredu i'r bwrdd ac amserlen ar gyfer ehangu'r Panel Sicrhau Ansawdd.

Pwysleisiodd y CHTh bwysigrwydd cysylltu'r PSA â gweithgarwch yr Heddlu.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh a'r PG y cynllun gweithredu ar gyfer ehangu'r PSA.**

**c) Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau**

Roedd yr Uwch-arolygydd Gary Mills yn bresennol yn y BP i roi cyflwyniad ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Dywedodd GM bod Grŵp ar gyfer Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau'n cael ei greu yn dilyn cynnydd o ran

marwolaethau ddechrau 2016 yn ardal Llanelli. Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd a oedd yn rhoi manylion am nifer y marwolaethau yn 2016-17 a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau a chanlyniadau profion cyffuriau.

Cyflwynodd GM ganfyddiadau i'r Bwrdd mewn perthynas â phernocsad, sy'n gwrthsefyll effeithiau gorddos heroin, a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus gan staff meddygol a swyddog yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y cyffur yn cael ei dreialu yn nalfa Sir Gaerfyrddin dros y misoedd i ddod.

Dywedodd GM bod trefniant wedi'i gytuno gyda Hywel Dda lle mae marwolaethau y bu ond y dim iddynt ddigwydd o ganlyniad i gyffuriau'n cael eu hadrodd i'r Grŵp. Mae'n bosibl y bydd hyn yn galluogi HDP i weithio ar elfen atal y mater hwn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyllid sydd ar gael o'r gronfa elw troseddau, a'r ffaith y gallai gweithgarwch gweithredol mewn perthynas ag atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau gael ei gyllido gan yr arian hwnnw.

Pwysleisiodd GM y gwaith partneriaeth hollbwysig sy'n cyfrannu at weithgarwch parhaus y grŵp. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gosod grwpiau partneriaeth yn strategol o fewn cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan gyffuriau.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â llinell gyffuriau bosibl yn dilyn sylwadau gan gymunedau yn Llanelli nad yw'r llinell 101 yn addas ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â chyffuriau.

**ch) Tendr Amgryptiad**

Cyflwynwyd y tendr amgryptiad i'r CHTh a'r PG ar gyfer cymeradwyo gwobrwyo'r tendr.

**Penderfyniad: Gwobrwyo'r tendr amgryptiad i gwmni ComputaCentre Cyf.**

**d) Canfyddiadau'r Arolwg Staff**

Rhoddodd Tracy Hawthorne ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â Calon, strategaeth Arweinyddiaeth a Lles HDP. Hysbysodd TH y Bwrdd fod arolwg staff 2016 wedi derbyn ymatebion gan aelodau staff mewn perthynas â morâl isel, diffyg arweinyddiaeth a diffyg cefnogaeth. Nododd TH y gallai newidiadau i swyddi uwch swyddogion a gwell cyfathrebu â staff yn 2017 fod wedi dylanwadu ar staff cyn arolwg 2017, a oedd yn cynnwys sylwadau mewn perthynas â pherthnasau da gyda rheolwyr llinell a gwell lefelau awdurdod ymysg staff.

Diweddarodd TH y Bwrdd ar amrediad o ganfyddiadau o arolwg 2017 a rhagfynegiadau cyn arolwg 2018.

Diolchodd y PG TH ar ran y Bwrdd am ei gwaith ar yr arolwg staff.

**6. Unrhyw Fusnes Arall**

**a) Llythyr gan y Swyddfa Gartref ar reoliadau newydd**

Dywedodd y CHTh ei fod wedi cysylltu â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Swydd Efrog, Julia Mulligan, gyda golwg ar sefydlu cynllun peilot yng Nghymru o gwmpas y Broses Apeliadau, a chytunwyd ar lafar y byddai dau adnodd ar gael.

**b) Blaenraglen Waith y Bwrdd Plismona**

Cyflwynodd y PS dri phwnc diddordeb awgrymedig ar gyfer cyfarfodydd BP yn gynnar yn 2018, sef Arfau Saethu, Cydymffurfiaeth Gwybodaeth a'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

**Cam Gweithredu: Arfau saethu i fod yn bwnc o ddiddordeb mewn BP ymhen 6 mis.**

**Cam Gweithredu: Cynllunio ariannol a chomisiynu i fod yn bwnc o ddiddordeb mewn BP ar 30 Ionawr 2018.**

**Cam Gweithredu: PS a Paul Morris i ddatblygu Canllaw Llywodraethu o ran sut y mae materion yn cael eu cyflwyno i'r BP.**

**c) Blaenoriaethu Diwrnodau Hyfforddi**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â Diogelwch Gwybodaeth. Dywedodd y PG bod y rhan fwyaf o dramgwyddau data HDP yn hanesyddol, fodd bynnag, rhoddir hyfforddiant i swyddogion a staff ynghylch diogelwch gwybodaeth.

Dywedodd y PG a'r PS fod datrysiadau meddalwedd yn cael eu treialu gan Swyddog Cydymffurfiaeth SCHTh ac yn swyddfa ACPO.

**ch) Cyllideb**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gosod y gyllideb a chostau canlyniadol elfennau o ystadau.

**Cam Gweithredu: Hysbysu'r Panel Heddlu a Throseddu am yr alldro ariannol rhagweledig ar gyfer 2017/18.**

Holodd y CHTh y PG am amryw o faterion sy'n ymwneud â chyflawni arbedion effeithlonrwydd a chynllunio ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y PSA bod angen adnewyddu cytundeb TIAA, archwilwyr mewnol HDP, ac awgrymodd y dylid ystyried eu gwaith hyd yn hyn cyn y gwneir penderfyniad.

**d) Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol**

Mae'r rhaglen Cadetiaid wedi'i chymeradwyo gan y Grŵp Prif Swyddogion a chyllidwyd ar ei chyfer gan y CC.

| CRYNODEB GWEITHREDOL O GYFARFOD 19/12/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam** | **Crynodeb Gweithredol** | **I'w ddatblygu gan** |
| **PB 3028** | **Cynnal cyfarfod o'r Bwrdd Plismona drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018.** | **MH** |
| **PB 3029** | **Y PG i adolygu data perfformiad a materion pellach â Goleudy a diweddariad i'w roi yn y cyfarfod nesaf.** | **GB** |
| **PB 3030** | **Arfau saethu i fod yn bwnc o ddiddordeb mewn BP ymhen 6 mis.** | **MH** |
| **PB 3031** | **Cynllunio ariannol a chomisiynu i fod yn bwnc o ddiddordeb mewn BP ar 30 Ionawr 2018.** | **MH** |
| **PB 3032** | **PS a Paul Morris i ddatblygu Canllaw Llywodraethu o ran sut y mae materion yn cael eu cyflwyno i'r BP.** | **PS** |
| **PB 3033** | **Y Swyddog Cydymffurfiaeth i roi diweddariad i'r CHTh ynghylch datrysiadau meddalwedd.** | **CB** |
| **PB 3034** | **Hysbysu'r Panel Heddlu a Throseddu am yr alldro ariannol rhagweledig ar gyfer 2017/18.** | **PS** |